Cymdeithas Gwasanaethau
Gwirfoddol Sir Benfro

PAVS

# dysgu ar gyfer y dyfodol

…paratoi'r sector gwirfoddol ar gyfer drennydd

**Digwyddiad un-dydd AM DDIM ar Ddydd Mercher 6 Hydref 2004 yng Nghanolfan Ystagbwll, Penfro**

10.00 yb – 4.00 yh
*gyda chinio o gynnyrch lleol*

# learning for the future

…preparing the voluntary sector for the day after tomorrow

**A FREE one-day event on Wednesday 6 October 2004 at The Stackpole Centre, Pembroke**

10.00 am – 4.00 pm
*with local produce lunch*

PAVS

Pembrokeshire Association
of Voluntary Services

Ni ŵyr neb yn union beth a ddeil y dyfodol, ond un peth sy'n sicr. Fe ddaw newidiadau. Mae'r sector gwirfoddol yn wynebu trawsnewidiad a fydd yn golygu newidiadau i batrymau traddodiadol o gyllido a darparu gwasanaeth, wrth i'r pwyslais symud oddi wrth gymorthdaliadau tuag at gymysgedd anturus o weithgaredd creu incwm a chodi arian.

Bydd meddwl yn greadigol, herian y status quo a'r gallu i addasu yn hanfodol yn ystod y degawd nesaf. Hanfod y digwyddiad un-dydd yma yw paratoi'r sector i wynebu'r sialens sydd i ddod ag i fanteisio ar gyfleon newydd wrth iddyn nhw godi.

Dyw gwneud dim ddim yn ddewis, felly cymrwch gamau pendant nawr gan wneud yn siwr mai'r digwyddiad yma fydd eich cam cyntaf tuag at gynllunio dyfodol llewyrchus.

**Cyflwyniadau**
**Gweithdai**
**Astudio enghraifft**
**Lansio prosiect**
**+**
**Ffair Ddysgu**
**Rhwydweithio**
**+**
**Dysgu sgil newydd mewn 10 munud!**

**DYCHWELWCH Y FFURFLEN ARCHEBU I WNEUD YN SIWR O'CH LLE**

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Louise yn PAVS ar 01437 769422 neu e-bost training@pavs.org.uk**

## RHAGLEN

| | |
|---|---|
| 0915 – 1000 | Coffi a chofrestru |
| 1000 – 1015 | **Croeso a chyflwyniad**<br>*Anne Moazzen, Cyfarwyddwr PAVS* |
| 1015 – 1035 | **Cyllido ar gyfer y dyfodol – cyfleon a sialensau**<br>*Simon Harris – Prif Weithredwr, Canolfan Gyd-weithredol Cymru*<br>Bydd Simon yn bwrw golwg ar y model mentergarwch cymdeithasol gan archwilio ei bosibiliadau o ran annog mwy o entrepreneuriaeth wrth ddarparu gwasanaeth yn y sector gwirfoddol ond heb gyfaddawdu'r gwerthoedd craidd |
| 1035 – 1055 | **Caffael sector cyhoeddus – dulliau newydd o weithio**<br>*Paul Ashley-Jones – Rheolwr Caffael, Cyngor Sir Penfro*<br>Bydd Paul yn rhoi arolwg byr o sut y mae caffael sector cyhoeddus yn newid yng Nghymru ac yn esbonio sut y gallai hyn weithio er mantais i'r sector gwirfoddol |
| 1055 – 1115 | Toriad |
| 1115 – 1300 | **Gweithdai** – *os gwelwch yn dda dewiswch UN* – a'i ddilyn â sesiwn adborth |
| Gweithdy 1 | **Cefnogi dysgu**<br>*Hwylusydd: Roger Smith PAVS*<br>Bydd PAVS yn sefydlu rhwydwaith o Gefnogwyr Dysg er mwyn galluogi grwpiau sector gwirfoddol Sir Benfro fanteisio ar gyfleon dysgu – ond beth arall fedrai'r rhwydwaith yma ei gynnig i ddysgwyr? Dewch i ddweud wrthym beth sydd ar eich meddwl – mae'n rhaid wrth eich syniadau chi i wneud iddo weithio! |
| Gweithdy 2 | **Cyllido – y darlun ehangach**<br>*Hwylusydd: Lorna Unwin PAVS*<br>Bydd y gweithdy hwn yn rhoi cyfle i chi edrych ar amgylchiadau cyllido presennol eich grŵp, i ddechrau meddwl am ffynonellau cyllido eraill ac i glustnodi anghenion penodol o ran hyfforddiant codi arian a gwybodaeth |
| Gweithdy 3 | **Mentergarwch cymdeithasol – archwilio'r potensial**<br>*Hwylusydd:Hywel Davies, AMCAN*<br>Beth yw mentergarwch cymdeithasol a sut medrai eich mudiad ddangos mwy o fentergarwch wrth ddod o hyd i ddulliau cyllido tymor hir a chyflenwi gwasanaeth? Bydd y gweithdy hwn yn rhoi cyfle i chi feddwl yn greadigol ynghylch cyfleon mentergarwch posib o fewn eich grŵp gwirfoddol eich hun |
| Gweithdy 4 | **Gnweud IDDO lwyddo er eich mwyn chi**<br>*Hwylusydd: Catherine Palmer PAVS*<br>Mae'r gweithdy yma yn archwilio buddiannau'r Rhyngrwyd ac yn edrych ar yr hyn sy'n rhwystro grwpiau gwirfoddol rhag gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gynorthwyo'r gwaith o godi arian, hyfforddi, ymchwil a llawer mwy |
| 1300 – 1400 | CINIO<br>Mwynhewch ginio o gynnyrch lleol; ewch i'r Ffair Ddysgu; treuliwch ddeg munud yn dysgu rhywbeth newydd . . . a siaradwch ag eraill! |
| 1400 – 1445 | **ASTUDIO ENGHRAIFFT: Sut ddaeth PACK-IT i ben â hi!**<br>Mae grŵp gwirfoddol Pack-IT wedi llwyddo'n rhyfeddol mewn deng mlynedd gan ennill Gwobr y Flwyddyn Mentergarwch Cymdeithasol DTI yn 2003 gyda throsiant blynyddol o £1.4 miliwn. Bydd *John Bennett, Rheolwr Gyfarwyddwr,* yn rhannu profiadau datblygu mentergarwch cymdeithasol llwyddiannus a'r gwersi a ddysgwyd |
| 1445 – 1500 | **DYSGU YN Y SECTOR GWIRFODDOL – lansio prosiect**<br>Canfyddwch sut y gall y prosiect yma gynorthwyo eich grŵp gwirfoddol i gael gafael ar yr hyfforddiant sydd ei angen arno er mwyn symud mlân yn y dyfodol |
| 1500 – 1600 | Sylwadau cloi a chyfle arall i ymweld â'r **FFAIR DDYSGU** |

No-one knows exactly what the future holds, but one thing is clear. Changes are coming. The voluntary sector is facing a big shake-up with changes to traditional patterns of funding and service delivery, as the focus shifts away from grants towards a more enterprising mix of income generation activity and fund raising.

Creative thinking, challenging the status quo and the ability to adapt will be vital over the next decade. This one-day event is all about preparing the sector to face the challenges that lie ahead and make the most of new opportunities as they arise.

Doing nothing is not an option, so take positive action now and make this event your first step towards planning a successful future.

**Presentations**
**Workshops**
**Case study**
**Project launch**
**+**
**Learning Fair**
**Networking**
**+**
**Learn a new skill in 10 minutes!**

**RETURN THE BOOKING FORM NOW TO BE SURE OF YOUR PLACE**

**For more information contact Louise at PAVS on 01437 769422 or e-mail training@pavs.org.uk**

## PROGRAMME

| | |
|---|---|
| 0915 – 1000 | Coffee and registration |
| 1000 – 1015 | **Welcome and introduction**<br>*Anne Moazzen, PAVS Director* |
| 1015 – 1035 | **Funding for the future - opportunities and challenges**<br>*Simon Harris – Chief Executive, Wales Co-operative Centre*<br>Simon will take a look at the social enterprise model and explore its potential for encouraging a more entrepreneurial approach towards voluntary sector service delivery without compromising core values |
| 1035 – 1055 | **Public sector procurement – new ways of working**<br>*Paul Ashley-Jones – Procurement Manager, Pembrokeshire County Council*<br>Paul will give a brief overview of how public sector procurement is changing in Wales and explain how this could work to the benefit of the voluntary sector |
| 1055 – 1115 | Break |
| 1115 – 1300 | **Workshops** – *please choose ONE* - followed by a feedback session |
| Workshop 1 | **Champion the cause of learning**<br>*Facilitator: Roger Smith PAVS*<br>PAVS is setting up a network of Learning Champions to help Pembrokeshire voluntary sector groups access learning opportunities – but what else could this network offer to learners? Come and tell us what you think – we need your ideas to make it work! |
| Workshop 2 | **Funding – the wider picture**<br>*Facilitator: Lorna Unwin PAVS*<br>This workshop will give you a chance to look at your group's current funding position, begin to think about exploring alternative funding options and identify specific needs for fundraising training and information |
| Workshop 3 | **Social enterprise – exploring the potential**<br>*Facilitator: Hywel Davies, AMCAN*<br>What is social enterprise and how could your organisation become more enterprising in its approach to long-term funding solutions and service delivery? This workshop gives you a chance to think creatively about potential enterprise opportunities within your own voluntary group |
| Workshop 4 | **Making IT work for you**<br>*Facilitator: Catherine Palmer PAVS*<br>This workshop explores the benefits of the Internet and looks at what's stopping voluntary groups making more use of information communication technology to help out with fund raising, training, research and much more |
| 1300 – 1400 | LUNCH<br>Enjoy a local produce lunch; visit the Learning Fair; take ten minutes to learn something new . . . and talk to others! |
| 1400 – 1445 | **CASE STUDY: How PACK-IT made it!**<br>From voluntary group to winner of the DTI Social Enterprise of the Year Award in 2003 with an annual turnover of £1.4 million, Pack-IT has come a long way in the last 10 years. *John Bennett, Managing Director,* will share the ups and downs of developing a successful social enterprise and the lessons learned along the way |
| 1445 – 1500 | **LEARNING IN THE VOLUNTARY SECTOR – project launch**<br>Find out how this project can help your voluntary group access the training it needs to move forward in the future |
| 1500 – 1600 | Closing address and another chance to visit the **LEARNING FAIR** |